

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 18^{fed} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30. Cawn hefyd gwmni Rhys Williams, Swyddog Diogelwch Tân Sir Conwy.
- Mercher – 19^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (16^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 26^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Trebor neu Glenys **erbyn dydd Sul (23^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Pwyntiau Gweddi

- ⇒ Gweddiwn dros y teuluoedd o'n plith mewn galar, y bydd yr Arglwydd yn gaer iddynt.
- ⇒ Gofynnwn am fendith Duw wrth i'r clybiau plant a CIC gychwyn tymor newydd.



I ddod

- **ADUNIAD LLANW** yng Ngholeg y Bala, Hydref 5ed-6ed. Mae croeso i ffrindiau newydd hefyd er mwyn i eraill gael blas o'r Wyl. Enwau **erbyn Medi 21ain**, os gwelwch yn dda. Cysylltwch trwy ebost: [ymholiadau@llanw.org](mailto:yholiadau@llanw.org) neu drwy ffonio Angharad ar 07966 790181.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Medi 16^{eg}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i'n gwasanaethau heddiw! O dro i dro, byddwn yn defnyddio Llais Bro Aled i geisio mynd i'r afael â rhai o gwestiynau sylfaenol Cristnogaeth. Yr wythnos hon, byddwn yn ystyried y cwestiwn – beth yw Cristion? Mae'r ateb canlynol i'w gael ar wefan ddefnyddiol www.gotquestions.org:

Ymddengys y gair Cristion deirgwaith yn y Testament Newydd (Actau 11:26; Actau 26:28; 1 Pedr 4:16). Galwyd dilynwr Iesu Grist yn "Gristnogion" yn gyntaf yn Antiochia (Actau 11:26) gan fod eu hymddygiad, eu gweithgaredd, a'u llefaru fel Crist. Defnyddiwyd y gair i ddechrau gan bobl Antiochia nad oedd wedi'u hachub fel llysenw i wneud sbort ar y Cristnogion. Ystyr llythrennol y gair yw 'perthyn i garfan Crist' neu 'credwr neu ddilynwr Crist', sydd yn debyg iawn i ddiffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru.

Yn anffodus dros amser mae'r gair "Cristion" wedi colli llawer iawn o'i arwyddocâd, ac fe'i defnyddir yn aml am bobl sydd ond yn grefyddol, neu'n foesol, ac nid am rywun sy'n dilyn Iesu Grist. Mae llawer o bobl sydd ddim yn credu nac yn ymddiried yn Iesu Grist yn ystyried eu hunain yn Gristnogion am eu bod yn mynd i'r capel, neu am eu bod yn byw mewn gwlad "Gristnogol". Ond nid yw mynd i'r eglwys/capel, gwasanaethu rhai llai ffodus, na bod yn berson da yn gwneud rhywun yn Gristion. Fel y dywedodd rhywun unwaith "Nid yw mynd i'r eglwys yn gwneud rhywun yn Gristion, yn fwy nag yw mynd i garej yn gwneud rhywun yn gar." Nid yw bod yn aelod o eglwys, mynd i wasanaethau yn aml, na rhoi i'r eglwys yn eich gwneud yn Gristion.

Mae'r Beibl yn ein dysgu na all gweithredoedd da ein gwneud yn dderbyniol i Dduw. Dywed Titus 3:5 wrthym (Beibl.net) 'Wnaeth e ddim ein hachub ni am ein bod ni'n dda, ond am ei fod e'i hun mor drugarog! Golchodd ni'n lân o'n pechod a rhoi bywyd newydd i ni drwy'r Ysbryd Glân.' Felly Cristion yw rhywun sydd wedi ei eni o'r newydd drwy Dduw (Ioan 3:3; Ioan 3:7; 1 Pedr 1:23). Dywed Effesiaid 2:8 wrthym mai 'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw.' Gwir Cristion yw rhywun sydd wedi edifarhau, ac wedi rhoi ei ffydd a'i ymddiriedaeth yn Iesu Grist yn unig.

Golyga hyn ymddiried ym mherson Iesu Grist, a'r ffaith iddo farw ar y groes i dalu am ein pechodau, cyn atgyfodi ar y trydydd dydd i ddangos ei fuddugoliaeth dros farwolaeth. Dywed Ioan 1:12 wrthym: 'Ond cafodd pawb wnaeth ei dderbyn, sef y rhai sy'n credu ynddo, hawl i ddod yn blant Duw.' Mae gwir Cristion felly yn blentyn i Dduw, ac wedi derbyn bywyd newydd yng Nghrist, ac fe welir hyn yn eu cariad tuag at eraill, a'u hufudd-dod i Air Duw (1 Ioan 2:4; 1 Ioan 2:10).

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 16^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Celfyn yn arwain a Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 19^{eg} ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 20^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15–4.30.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele. Gwaith yr Henaduriaeth a Gwasanaeth Cymun am 6.00. (*Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.*)
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 25^{ain} ➤ **Is-bwyllgor Chwiorydd yr Henaduriaeth** – Noson yng nghwmni y Parch. Huw Dylan yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.00.
- Mercher – 26^{ain} ➤ **Grwpiau Tai** am 7.30. Cysylltwch â'r arweinwyr am fwy o wybodaeth.
- Iau – 27^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15–4.30.
- Gwener – 28^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sadwrn – 29^{ain} ➤ **Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul â'r Fedal Gee** yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno am 2.00.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** am 6.00 gyda Sarah yn arwain a'r Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith **yng NGHEFN MEIRIADOG am 10.30**. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog **am 10.00** (*sylwch ar y lleoliad a'r amser gwahanol i'r arfer*) a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 21^{ain} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, 16^{eg}** os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul canlynol – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.